

Cynllun Iaith Gymraeg
Yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol
Mai 2017

Cynnwys

Cynllun Iaith Gymraeg Yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol		
1	Cyflwyniad	3
2	Cefndir y sefydliad	4
Cynllunio a chyflawni gwasanaethau		
3	Polisiau, deddfwriaeth a chynlluniau	5
4	Cyflawni gwasanaethau	5
5	Ein swyddogaethau rheoleiddio – a gwasanaethau a wneir ar ein rhan gan drydydd parti	5
6	Safonau ansawdd	5
Ymdrin â'r cyhoedd yng Nghymru		
7	Gohebiaeth	6
8	Cyfathrebu dros y ffôn	7
9	Cyfarfodydd cyhoeddus	7
10	Cyfarfodydd eraill gyda'r cyhoedd yng Nghymru	7
11	Cysylltiadau eraill gyda'r cyhoedd yng Nghymru	7
Ein hwyneb cyhoeddus		
12	Ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd, arddangosfeydd a hysbysebu	8
13	Cyhoeddiadau defnyddwyr	9
14	Gwefannau	9
15	Cyfringau cymdeithasol	10
16	Ffurflenni a deunydd esboniadol cysylltiedig	10
17	Hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus a hysbysiadau recriwtio	11
18	Codi ymwybyddiaeth	11
19	Datganiadau i'r wasg a chyswllt gyda'r cyfringau	11
Gweithredu'r Cynllun		
20	Staffio, recriwtio, hyfforddiant iaith a hyfforddiant galwedigaethol	12
21	Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu	12
22	Gweithio mewn partneriaeth	12
23	Trefniadau mewnol	13
24	Monitro	13
25	Adolygu ac addasu'r cynllun	13
26	Cwynion ac awgrymiadau i wella	14



Cynllun Iaith Gymraeg Yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol

1 Cyflwyniad

1.1 Dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993, mae'n rhaid i bob corff cyhoeddus sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru baratoi cynllun sy'n nodi sut y bydd yn darparu'r gwasanaethau hynny yn Gymraeg.

1.2 Dyma yw Cynllun Iaith Gymraeg yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA). Mae'n disgrifio sut y byddwn, gyhyd ag sy'n briodol yn yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol, yn gweithredu'r egwyddor a sefydlwyd gan Ddeddf yr Iaith Gymraeg y dylai'r Gymraeg a Saesneg gael eu trin ar sail gyfartal wrth ymgymryd â busnes cyhoeddus a gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru.

1.3 Mae'r cynllun yn ymdrin â'r gweithgareddau a'r gwasanaethau a ddarparwn neu sydd wedi'u bwriadu i aelodau'r cyhoedd yng Nghymru, neu wasanaethau a ddarperir yn ehangach ac sy'n cynnwys Cymru. Yn y cynllun hwn, mae'r term 'cyhoeddus' yn golygu unigolion, personau cyfreithiol a chyrrff corfforaethol. Mae'n cynnwys y cyhoedd yn ei gyfanrwydd neu gyfran o'r cyhoedd, ynghyd ag aelodau unigol o'r cyhoedd. Mae'r term yn cynnwys sefydliadau

gwirfoddol ac elusennau. Mae cyfarwyddwyr ac eraill sy'n cynrychioli cwmnïau cyfyngedig hefyd wedi'u cynnwys o fewn ystyr y term 'cyhoeddus'. Fodd bynnag, nid yw'n cynnwys personau sy'n cynrychioli'r Goron, y Llywodraeth na'r Wladwriaeth. O ganlyniad, nid yw personau sy'n cyflawni swyddogaethau swyddogol o natur gyhoeddus, hyd yn oed os ydynt yn 'bersonau' cyfreithiol, yn dod o fewn ystyr y gair 'cyhoeddus' pan fyddant yn cyflawni'r swyddogaethau swyddogol hynny.

1.4 Mae gwybodaeth bellach am sgôp a phwrpas cynlluniau iaith Gymraeg ar gael yng nghanllawiau Comisiynydd y Gymraeg ar ei gwefan (<http://bit.ly/2roagay>).

1.5 Cymeradwywyd ein Cynllun Iaith Gymraeg gwreiddiol, a grëwyd gan yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol ar y pryd, gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg, dan Adran 9 y Ddeddf. Daeth i rym ar 30 Hydref 2006 ac fe'i trosglwyddwyd i'r FCA pan gawsom ein sefydlu ym mis Ebrill 2013.

1.6 Mae'r Cynllun Iaith Gymraeg diwygiedig hwn yn nodi sut mae'r FCA wedi datblygu ac adeiladu ar gyflawniadau'r cynllun gwreiddiol. Derbyniodd gymeradwyaeth Comisiynydd y Gymraeg dan adran

14(1) Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 ar y 31ain o Fai, 2017.

- 1.7** Mae Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011 yn trosglwyddo swyddogaethau Deddf yr Iaith Gymraeg 1993, sy'n ymwneud â Chynlluniau Iaith Gymraeg i Gomisiynydd y Gymraeg. Yn ogystal, mae'r Mesur yn rhoi grym cyfreithiol i statws swyddogol yr iaith Gymraeg. Mae'r FCA wedi ymrwmo i gymryd camau cadarnhaol i weithredu swyddogaethau perthnasol dan y Mesur.

2 Cefndir y sefydliad

- 2.1** Mae'r FCA yn rheoleiddiwr ymddygiad ar gyfer 56,000 o gwmnïau gwasanaethau ariannol a marchnadoedd ariannol yn y DU ac yn rheoleiddiwr ddarvoudus ar gyfer dros 24,000 o'r cwmnïau hynny; mae dros 10,000 o'r rhain wedi'u lleoli yng Nghymru.

- 2.2** Ein hamcan strategol yw sicrhau bod y marchnadoedd perthnasol yn gweithio'n dda a'n hamcanion gweithredol yw:
- Gwarchod defnyddwyr – rydym yn sicrhau gwarchodaeth briodol i ddefnyddwyr.
 - Gwarchod marchnadoedd ariannol – rydym yn gwarchod ac yn gwella cywirdeb system ariannol y DU.
 - Hyrwyddo cystadleuaeth – rydym yn hyrwyddo cystadleuaeth effeithiol er budd defnyddwyr.

- 2.3** Rydym yn gorff cyhoeddus annibynnol a ariennir yn gyfan gwbl drwy godi ffi ar y cwmnïau yr ydym yn eu rheoleiddio. Rydym yn atebol i'r Trysorlys, sy'n gyfrifol am system ariannol y DU ac i'r Senedd.

- 2.4** Mae ein gwaith a'n pwrpas wedi'u diffinio gan Ddeddf Gwasanaethau a Marchnadoedd Ariannol 2000 (FSMA). Rydym yn gweithio gyda grwpiau defnyddwyr, cymdeithasau masnachu a chyrff proffesiynol, rheoleiddwyr domestig, deddfwyr yr UE ac ystod eang o ran-ddeiliaid eraill. Gyda'r cylch gorchwyl eang hwn, mae gennym ymagwedd gymesur i reoleiddio, gan flaenoriaethu'r meysydd a'r cwmnïau sy'n peri'r risg mwyaf i'n hamcanion. Fel rhan o ofynion y FSMA, mae gennym ddyletswydd i ddefnyddio ein hadnoddau yn ddarvoudus ac effeithlon.

- 2.5** Mae ein pencadlys yn Llundain, ble y lleolir tua 3,500 o staff. Maent yn darparu gwasanaethau ledled Cymru, Lloegr, Yr Alban a Gogledd Iwerddon.

- 2.6** Cyfeiriad ein gwefan yw www.FCA.org.uk a chewch hyd i wybodaeth bellach am ein hymrwymiad i'r iaith Gymraeg [yma](#). Rhoddir manylion cyswllt sy'n berthnasol i'r cynllun hwn ar ddiwedd y ddogfen hon.

Cynllunio a chyflawni gwasanaethau

3 Polisiau, deddfwriaeth a chynlluniau

- 3.1** Bydd ein polisiau, ein cynlluniau a'n gwasanaethau yn gyson â'r cynllun hwn. Byddant yn cefnogi'r defnydd o'r Gymraeg a, ble bynnag y bydd hynny'n bosib, byddwn yn galluogi i'r cyhoedd yng Nghymru ddefnyddio'r Gymraeg fel rhan o'u bywydau beunyddiol.
- 3.2** Pan fyddwn yn cyfrannu at ddatblygu neu gyflawni polisiau, cynlluniau, gwasanaethau neu ddeddfwriaeth newydd a arweinir gan sefydliadau eraill, gwnawn hynny mewn modd sy'n gyson â'r cynllun hwn.

4 Cyflawni gwasanaethau

- 4.1** Bydd gennym dudalen bwrpasol ar y wefan yn amlinellu ein hymrwymiad i'r iaith Gymraeg a bydd yr holl wasanaethau a'r adnoddau sydd ar gael yn Gymraeg yn cael eu cynnig yn rhagweithiol ac ar gael mewn un man. Ble mae adnoddau ar gael yn y Gymraeg, byddent ar gael yn yr un man a'r adnodd Saesneg ar ein gwefan. Byddwn yn sicrhau bod cynifer o'n gwasanaethau ag sy'n rhesymol ymarferol ar gael yn Gymraeg.

5 Ein swyddogaethau rheoleiddio – a gwasanaethau a wneir ar ein rhan gan drydydd parti

- 5.1** Bydd unrhyw gytundebau neu drefniadau a wnawn gyda thrydydd parti yn gyson â rhannau perthnasol y cynllun hwn, pan fo'r cytundebau neu'r trefniadau hynny'n berthnasol i ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru. Ble bo hynny'n berthnasol, byddwn yn monitro cynnydd ac yn gosod dangosyddion perfformiad ar drydydd partion i sicrhau eu bod yn cyflawni'r gwasanaethau hynny yn unol â'r cynllun hwn.
- 5.2** Bydd yr uchod yn cynnwys gwasanaethau sy'n cael eu rhoi ar gontract, caniatáu trwyddedau a thrwy unrhyw ganiatâd arall.

6 Safonau ansawdd

- 6.1** Byddwn yn gweithio ar y sail bod gwasanaethau a ddarperir yn Gymraeg ac yn Saesneg o ansawdd cyfartal, yn cael eu darparu o fewn yr un amserlen ac nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na Saesneg.
- 6.2** Bydd unrhyw fath o gyswllt gyda'r cyhoedd yng Nghymru, nas ymdrinnir â nhw'n benodol gan y cynllun hwn, yn cael ei wneud mewn modd sy'n gyson ag egwyddorion cyffredinol y cynllun hwn.

Ymdrin â'r cyhoedd yng Nghymru

7 Gohebiaeth

- 7.1** Rydym yn croesawu gohebiaeth ysgrifenedig yn Gymraeg a Saesneg, ac yn hyrwyddo hyn yn rhagweithiol. Byddwn yn nodi hyn yn ein gohebiaeth awdurdodi cyntaf gyda chwmni, unigolyn, grŵp neu sefydliad yng Nghymru. Bydd hyn hefyd yn cael ei gynnig yn rhagweithiol mewn cyhoeddiadau a hysbysiadau sy'n gwahodd pobl i ymateb i ni.
- 7.2** Pan fyddwn yn anfon ein Hadroddiad Blynyddol i gwmni, unigolyn, grŵp neu sefydliad yng Nghymru, fe wnawn hynny yn ddwyieithog, ac yn hysbysu'r derbynwyr ein bod yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg.
- 7.3** Pan fo rhywun yn ysgrifennu atom yn Gymraeg, byddwn yn ymateb yn Gymraeg (os bydd angen ymateb).
- 7.4** Bydd ein targed amser i ymateb yn Gymraeg yr un fath ag ar gyfer llythyrau a dderbynnir yn Saesneg.
- 7.5** Os yw unigolyn (sydd yn cynnwys cwmni, grŵp neu sefydliad) yn dweud wrthym ei fod yn dymuno derbyn gohebiaeth gyffredinol, sydd ddim yn arbenigol neu oruchwylol yn Gymraeg, byddwn yn cadw cofnod o hyn a bydd unrhyw ohebiaeth gyffredinol, heb ei awtomeiddio a anfonir o hynny allan yn Gymraeg. Yn sgil natur ein gwaith a systemau ymateb wedi ei awtomeiddio, ni fydd hyn yn cynnwys gohebiaeth o natur arbenigol neu oruchwylol, er enghraifft pan yn cynnal ymchwiliad neu ymateb i gwynion neu ohebiaeth wedi ei gynhyrchu gan ein system awtomeiddio.
- 7.6** Wrth ymgysylltu mewn ymarferion cyfathrebu sylweddol trwy ymgyrchoedd gyda'r cyhoedd yng Nghymru, byddwn yn darparu deunyddiau dwyieithog.
- 7.7** Bydd atodiadau a anfonir gyda llythyrau dwyieithog cyffredinol bob amser yn ddwyieithog, pan fo'r deunydd ar gael.
- 7.8** Bydd unrhyw atodiadau a anfonir i'r sawl sydd wedi nodi gohebu yn Gymraeg fel eu dewis, yn cael eu hanfon yn Gymraeg neu'n ddwyieithog pan fo'r deunydd ar gael.
- 7.9** Bydd yr uchod yn berthnasol ar gyfer gohebiaeth electroneg ynghyd â gohebiaeth ar bapur.
- 7.10** Ni fyddwn yn trin fersiwn copi caled o ohebiaeth Gymraeg yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg, sy'n cynnwys y bydd gohebiaeth Gymraeg yn cael ei arwyddo (os ydi'r fersiwn Saesneg wedi ei arwyddo).

8 Cyfathrebu dros y ffôn

- 8.1** Byddwn yn darparu opsiwn Cymraeg ar ein prif linell gymorth gyda neges wedi'i recordio'n Gymraeg a fydd yn amlinellu'r gwasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg. Yn gyffredinol, ni fyddai'n ymarferol i staff yr FCA gynnal sgwrsiau ffôn yn Gymraeg oni bai bod y gwasanaeth yn cael ei gynnig a'i hysbysebu'n benodol. Dyma faes y byddwn yn ceisio gwella ein darpariaeth gwasanaeth dros gyfnod y Cynllun Iaith Gymraeg.

9 Cyfarfodydd cyhoeddus

- 9.1** Pan fyddwn yn cynnal cyfarfodydd cyhoeddus yng Nghymru, byddwn yn anfon gwahoddiadau'n ddwyieithog a byddwn yn rhoi gwybod i'r sawl fydd yn bresennol y croesewir y defnydd o'r Gymraeg yn y cyfarfod. Byddwn yn sicrhau bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i Saesneg ar gael.

10 Cyfarfodydd eraill gyda'r cyhoedd yng Nghymru

- 10.1** Yn gyffredinol, ni fyddai'n ymarferol i staff y FCA gynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb gyda'r cyhoedd yn Gymraeg oni bai y cynigir ac yr hysbysebir y gwasanaeth hwn yn benodol.

11 Cysylltiadau eraill gyda'r cyhoedd yng Nghymru

- 11.1** Pan fyddwn yn gwneud arolygon ar bapur neu ar-lein gyda'r cyhoedd yng Nghymru, byddwn yn sicrhau y bydd pob agwedd o'r cyfathrebu yn ddwyieithog a bydd modd i'r sawl sy'n ymateb gwblhau'r arolwg yn Gymraeg neu Saesneg.
- 11.2** Pan fyddwn yn trefnu seminarau, cyrsiau hyfforddi neu ddigwyddiadau tebyg i'r cyhoedd yng Nghymru, byddwn yn anfon gwahoddiadau'n ddwyieithog ac, os yw hynny'n briodol, byddwn yn rhoi gwybod i'r sawl sy'n bresennol y croesewir y defnydd o'r Gymraeg. Mewn achosion o'r fath, byddwn yn sicrhau bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i Saesneg ar gael.

Ein hwyneb cyhoeddus

12 Ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd, arddangosfeydd a hysbysebu

- 12.1** Wrth ymgymryd ag ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd, arddangosfeydd a gweithgareddau hysbysebu yng Nghymru neu sydd wedi'u hanelu at y cyhoedd yn gyffredinol yng Nghymru fel rhan o weithgaredd ar draws y DU, byddwn yn darparu'r holl ddeunydd perthnasol yn ddwyieithog, neu ar ffurf Cymraeg a Saesneg ar wahân. Os bydd rhaid cyhoeddi'r fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân, bydd y ddau fersiwn yn gyfartal o ran maint, amlygrwydd ac ansawdd – a bydd y ddau fersiwn ar gael ar yr un pryd a bydd y naill mor hygyrch â'r llall.
- 12.2** Bydd unrhyw hysbysebion a roddir mewn papurau newydd Saesneg (neu gyhoeddiadau tebyg) a ddosberthir yn bennaf neu'n gyfan gwbl yng Nghymru, yn ddwyieithog, neu byddant yn ymddangos fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân gyda'r ddau fersiwn yn ymddangos ar yr un pryd ac yn gyfartal o ran maint, amlygrwydd ac ansawdd.
- 12.3** Mewn cyhoeddiadau Cymraeg, bydd hysbysebion yn Gymraeg yn unig.
- 12.4** Cynhelir hysbysebion teledu, sinema a radio yng Nghymru yn Gymraeg a Saesneg. Bydd ymgyrchoedd teledu fydd yn ymddangos ar S4C yn Gymraeg. Bydd ymgyrchoedd radio a ddarlledir yn ystod rhaglenni Cymraeg ar orsafoedd radio masnachol yn Gymraeg. Ble bynnag fo hynny'n bosib a phan ellir cyfiawnhau hynny'n economaidd, byddwn yn osgoi defnyddio isdeitlau Cymraeg ac yn osgoi dybio hysbysebion i'r Gymraeg (ac eithrio trosleisio).
- 12.5** Pan fyddwn yn sefydlu llinellau ymateb ffôn a ffyrdd eraill o ymateb i ymgyrchoedd yng Nghymru, byddwn yn darparu gwasanaeth Cymraeg.
- 12.6** Wrth staffio stondinau arddangosfeydd ymgyrchoedd yng Nghymru, byddwn yn sicrhau bod siaradwyr Cymraeg ar gael i hwyluso sgysiau Cymraeg.

13 Cyhoeddiadau defnyddwyr

- 13.1** Byddwn yn cyhoeddi ein Hadroddiad Blynyddol, ein prif ddogfen gorfforaethol, yn Gymraeg yn ogystal ag yn Saesneg.
- 13.2** Er mwyn sicrhau ein bod yn canolbwyntio ein hadnoddau'n gyfrifol, byddwn yn sicrhau bod ein dull o wneud cyhoeddiadau generig ar gael yn ddwyieithog yn adlewyrchu natur y cwmnïau cofrestredig sydd wedi'u lleoli yng Nghymru yn ôl math.
- 13.3** Gan ystyried natur y cwmnïau yng Nghymru, byddwn yn cyhoeddi'r 20 dogfen generig yr FCA i ddefnyddwyr a ddefnyddir fwyaf yn ddwyieithog. Byddwn yn cynyddu argaeledd cyhoeddiadau dwyieithog dros amser drwy sicrhau bod 5 cyhoeddiad ychwanegol ar gael bob blwyddyn. Bydd rhestr o'r cyhoeddiadau hynny ar gael ar ein gwefan.
- 13.4** Byddwn yn ymateb i geisiadau penodol am gyhoeddiadau dwyieithog ar sail pob achos unigol ac wrth ystyried darparu'r deunydd yn Gymraeg, os yw'n rhesymol ymarferol ac os oes galw am y cyhoeddiad penodol hwnnw. Bydd ystyriaethau'n cynnwys perthnasedd y cyhoeddiad i natur y cwmnïau cofrestredig sydd wedi'u lleoli yng Nghymru.
- 13.5** Os bydd rhaid cyhoeddi'r fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân (er enghraifft, ble byddai un ddogfen yn rhy hir neu'n rhy swmpus), bydd y ddau fersiwn o faint ac ansawdd cyfartal – a'r arfer fydd sicrhau bod y ddau fersiwn ar gael o fewn amser rhesymol a bod y naill mor hygyrch â'r llall. Bydd pob fersiwn yn nodi'n glir bod y deunydd ar gael yn yr iaith arall.

13.6 Os nad yw ar gael yn rhad ac am ddim, ni fydd pris dogfen ddwyieithog yn fwy na phris cyhoeddiad uniaith – a bydd pris fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân yr un fath.

13.7 Bydd yr uchod hefyd yn berthnasol i ddeunydd sydd ar gael yn electroneg ar ein gwefan neu fel arall.

14 Gwefannau

- 14.1** Bydd gennym adran bwrpasol ar gyfer yr iaith Gymraeg ar wefan yr FCA a fydd yn cynnwys gwybodaeth am y gwasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg, dolenni i gyhoeddiadau a ffurflenni dwyieithog ynghyd â'r cynllun hwn a'r cynllun gweithredu cysylltiedig. Bydd yn hawdd mynd at yr adran Gymraeg o ddolen amlwg ar y dudalen gartref.
- 14.2** Wrth ddylunio gwefannau newydd, neu ailddatblygu ein gwefannau presennol, byddwn yn ystyried ein rhwymedigaethau dan y cynllun hwn yn ogystal â chyhoeddiad Comisiynydd y Gymraeg ar Dechnoleg, Gwefannau a Meddalwedd (<http://bit.ly/1SqqmuC>).
- 14.3** Pan fyddwn yn rhoi cyhoeddiadau Saesneg ar ein gwefannau, rhoddir y fersiynau Cymraeg ar yr un pryd, os bydd fersiwn Cymraeg yn cael ei ddarparu. Ble mae adnoddau ar gael yn y Gymraeg, byddent ar gael yn yr un man a'r adnodd Saesneg ar ein gwefan.

15 Cyfryngau cymdeithasol

- 15.1** Byddwn yn datblygu ffrwd Twitter gorfforaethol Gymraeg bwrpasol ble bydd trydariadau wedi'u cynllunio yn cael eu postio yn Gymraeg ar yr un pryd â'r rhai Saesneg. Yn gyffredinol, ni fydd hi'n ymarferol i drydariadau 'brys' (heb eu cynllunio) neu rai sy'n ymwneud ag ymyrraeth reoleiddiol benodol fod ar gael yn Gymraeg. Ble bydd hynny'n bosib, bydd trydariadau brys sy'n ymwneud yn benodol â Chymru yn cael eu postio'r un pryd â'r rhai Saesneg.
- 15.2** Pan fo rhywun yn cysylltu â'r FCA drwy'r cyfryngau cymdeithasol yn Gymraeg, byddwn yn ymateb yn Gymraeg (os oes angen ateb a bod hynny'n briodol). Yn unol â'r polisi cyfryngau cymdeithasol ni fyddwn yn dueddol o ymateb ar Twitter yn y Gymraeg na'r Saesneg.

16 Ffurflenni a deunydd esboniadol cysylltiedig

- 16.1** Byddwn yn sicrhau bod ein hymagwedd i wneud ffurflenni papur/rhai y gellir eu lawrlwytho ar gael yn ddwyieithog yn adlewyrchu natur y cwmnïau cofrestredig sydd wedi'u lleoli yng Nghymru. Yn sgil natur ein "ffurflenni goblygiadau newid system" ar-lein, fel y rhai sydd ar ein systemau 'Gabriel' a 'Connect', ni fydd y rhain ar gael yn ddwyieithog. Drwy wneud hyn gallwn ganolbwyntio ein hadnoddau'n gyfrifol.
- 16.2** Gan ystyried natur y cwmnïau yng Nghymru, byddwn yn sicrhau bod y 10 ffurflen a ddefnyddir fwyaf gan y sefydliadau/unigolion hyn ar gael yn Gymraeg a Saesneg a byddwn yn cynyddu argaeledd ffurflenni dwyieithog dros amser drwy sicrhau bod tair ffurflen ychwanegol ar gael bob blwyddyn. Bydd rhestr o'r cyhoeddiadau hynny ar gael ar ein gwefan.
- 16.3** Byddwn yn ymateb i geisiadau penodol am ffurflenni dwyieithog ar sail pob achos unigol a byddwn yn ystyried darparu'r deunydd yn Gymraeg, os yw'n rhesymol ymarferol gwneud hynny. Bydd ystyriaethau'n cynnwys perthnasedd y ffurflen i natur y cwmnïau cofrestredig sydd wedi'u lleoli yng Nghymru a'r galw am y ffurflen benodol.
- 16.4** Os bydd rhaid cyhoeddi'r fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân (er enghraifft, ble byddai un ddogfen yn rhy hir neu'n rhy swmpus), bydd y ddau fersiwn o faint ac ansawdd cyfartal – a byddwn yn sicrhau bod y ddau fersiwn ar gael ar yr un pryd a bod y naill mor hygyrch â'r llall. Bydd pob fersiwn yn nodi'n glir bod y deunydd ar gael yn yr iaith arall.
- 16.5** Pan fyddwn yn cofnodi gwybodaeth ar fersiynau Cymraeg o ffurflenni a anfonir i'r cyhoedd, byddwn yn gwneud hynny yn Gymraeg.
- 16.6** Pan fyddwn yn cofnodi gwybodaeth ar ffurflenni dwyieithog a anfonir i'r cyhoedd, byddwn yn gwneud hynny'n ddwyieithog oni bai ein bod yn gwybod y byddai'n well gan y sawl sy'n eu derbyn gael y wybodaeth yn Gymraeg neu Saesneg yn unig.
- 16.7** Pan fo sefydliadau eraill sydd dan drefniant contract gyda'r FCA yn dosbarthu ffurflenni ar ein rhan, byddwn yn sicrhau eu bod yn gwneud hynny'n unol â'r uchod.
- 16.8** Pan fo sefydliadau eraill, yr ydym mewn partneriaeth â nhw, yn dosbarthu ffurflenni ar ein rhan, byddwn yn eu hannog i wneud hynny'n unol â'r uchod.

16.9 Byddwn yn adolygu, ar y cyd â Chomisiynydd y Gymraeg, sut allwn gynyddu argaeledd ffurflenni ar-lein dwyieithog dros amser.

17 Hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus a hysbysiadau recriwtio

17.1 Bydd hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus a hysbysiadau recriwtio staff mewn papurau newydd Saesneg (neu gyfryngau tebyg) a ddsberthir yn bennaf neu'n gyfan gwbl yng Nghymru, yn ddwyieithog, neu byddant yn ymddangos fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân. Bydd hysbysiadau mewn cyhoeddiadau Cymraeg yn Gymraeg yn unig.

17.2 Bydd y fersiynau Cymraeg a Saesneg yn gyfartal yn nhermau ffurf, maint, ansawdd ac amlygrwydd.

17.3 Bydd unrhyw hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus a hysbysiadau recriwtio staff a roddir mewn manau eraill yng Nghymru yn ddwyieithog.

18 Codi ymwybyddiaeth

18.1 Byddwn yn hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg yr ydym yn eu darparu drwy roi gwybod i'r cyhoedd yng Nghymru yn rhagweithiol drwy ohebiaeth ar ein gwybodaeth teleffon Gymraeg, mewn digwyddiadau yng Nghymru ac ar ein gwefan a'r ffrwd Gymraeg ar Twitter.

19 Datganiadau i'r wasg a chyswllt gyda'r cyfryngau

19.1 Bydd datganiadau i'r wasg a anfonwn yn benodol i'r cyfryngau argraffedig a darlledu Cymraeg yng Nghymru yn cael eu cyhoeddi yn Gymraeg a Saesneg os yw'r amserlen yn caniatáu – neu yn unol â dewis iaith y sefydliad neu'r cyhoeddiad sy'n eu derbyn.

19.2 Pan fyddwn yn rhoi datganiadau i'r wasg sy'n benodol i Gymru ar ein gwefan, byddwn yn eu postio ar ein gwefan yn Gymraeg a Saesneg.

Gweithredu'r Cynllun

20 Staffio, recriwtio, hyfforddiant iaith a hyfforddiant galwedigaethol

20.1 Er nad oes unrhyw swyddi o fewn yr FCA ar hyn o bryd ble'r ystyrir y gallu i siarad Cymraeg yn 'hanfodol' neu'n 'ddymunol' rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod darpariaethau'r Cynllun Iaith Gymraeg hwn yn cael eu cyflawni. Byddwn yn rhoi prosesau yn eu lle i hwyluso'r nod hwn a cheir manylion am hyn yn y cynllun gweithredu. Bydd y rhain yn cynnwys briffio staff, canllawiau i staff ac ymgyrch fewnol i godi ymwybyddiaeth.

21 Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu

21.1 Byddwn yn darparu ar gyfer yr angen i gyflwyno gwybodaeth a gwasanaethau yn Gymraeg, a gweithredu yn unol â'r cynllun hwn, wrth i ni ddatblygu, dylunio a phrynu cynnyrch a gwasanaethau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu.

21.2 Ble bynnag bo hynny'n bosib, a ble bo cyfiawnhad economaidd i wneud hynny, byddwn yn addasu ein systemau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu presennol i sicrhau eu bod yn ein galluogi i ddarparu

gwybodaeth a gwasanaethau yn Gymraeg – a gweithredu yn unol â'r cynllun hwn. Byddwn hefyd yn ystyried cyhoeddiad Comisiynydd y Gymraeg ar Dechnoleg, Gwefannau a Meddalwedd (<http://bit.ly/1SqgmuC>)

22 Gweithio mewn partneriaeth

22.1 Os ydym yn arweinydd strategol ac ariannol o fewn y bartneriaeth, bydd ein mewnbwn i'r bartneriaeth yn cydymffurfio â'r cynllun hwn a byddwn yn annog y partneriaid eraill i gydymffurfio.

22.2 Pan fyddwn yn ymuno â phartneriaeth y mae sefydliad arall yn ei harwain, bydd ein mewnbwn i'r bartneriaeth yn cydymffurfio â'r cynllun hwn a byddwn yn annog y partneriaid eraill i gydymffurfio.

22.3 Os ydym yn bartner mewn consortiwm, byddwn yn annog y consortiwm i gydymffurfio â'r cynllun hwn. Wrth weithredu yn enw'r consortiwm, byddwn yn gweithredu yn unol â'r cynllun hwn.

22.4 Mae'r uchod yn cyfeirio at bartneriaethau ffurfiol sy'n ymdrin â gwasanaethau sydd ar gael i'r cyhoedd yng Nghymru yn unig.

23 Trefniadau mewnol

- 23.1** Mae'r mesurau yn y cynllun hwn yn derbyn awdurdod, cefnogaeth a chymeradwyaeth lawn ein sefydliad ac maent wedi'u cymeradwyo gan ein Pwyllgor Gweithredol a'u cadarnhau gan y Prif Weithredwr.
- 23.2** Bydd rheolwyr yn gyfrifol am weithredu'r agweddau hynny ar y cynllun sy'n berthnasol i'w gwaith.
- 23.3** Byddwn yn penodi aelod uwch o staff i gydlynu'r gwaith sydd ei angen i gyflawni, monitro ac adolygu'r cynllun hwn.
- 23.4** Byddwn yn paratoi, ac yn cynnal, cynllun gweithredu manwl i'w rannu gyda Chomisiynydd y Gymraeg, sy'n nodi sut byddwn yn sicrhau y byddwn yn gweithredu'n unol â'r cynllun hwn. Bydd y cynllun gweithredu yn dod i rym ar y dyddiad y daw'r cynllun hwn i rym. Bydd y cynllun gweithredu yn cynnwys targedau, dyddiadau cau ac adroddiad ar gynnydd yn erbyn pob targed.
- 23.5** Bydd y cynllun hwn yn cael ei hysbysebu i'n staff, a'r cyhoedd yng Nghymru. Bydd yn cael ei gyhoeddi ar ein gwefan mewn man amlwg.
- 23.6** Byddwn yn cynhyrchu canllawiau ar gyfer ein staff i sicrhau eu bod yn gwybod sut i weithredu'r mesurau sydd wedi'u cynnwys yn y cynllun hwn.
- 23.7** Bydd cyfarwyddyd presennol, neu debyg, sy'n cael ei ddefnyddio gan ein staff yn cael ei ddiwygio i adlewyrchu'r mesurau sydd wedi'u cynnwys yn y cynllun hwn.
- 23.8** Byddwn yn trefnu sesiynau briffio a hyfforddiant, fel sy'n briodol, i'n staff i gynyddu ymwybyddiaeth o'r cynllun hwn – ac i esbonio sut y bydd yn effeithio ar eu gwaith beunyddiol.

- 23.9** Byddwn yn sicrhau ein bod yn defnyddio cyfieithwyr, cyfieithwyr ar y pryd ac ymgynghorwyr cymwys a phrofiadol yn unig i helpu i gyflawni'r cynllun hwn, fel sy'n briodol.

24 Monitro

- 24.1** Byddwn yn monitro ein cynnydd wrth gyflawni'r cynllun hwn yn erbyn y targedau sydd wedi'u nodi yn y cynllun gweithredu cysylltiedig.
- 24.2** Bydd yr aelod uwch o staff a benodir i gydlynu'r gwaith sydd ei angen i gyflawni, monitro ac adolygu'r cynllun hwn yn adrodd i'r uwch reolwyr ar y cynnydd hwnnw yn flynyddol.
- 24.3** Bydd ein gweithdrefnau monitro ac adrodd presennol yn cynnwys cyfeiriad i gynnydd wrth gyflawni'r cynllun hwn, fel sy'n briodol.
- 24.4** Byddwn yn adrodd i Gomisiynydd y Gymraeg yn flynyddol ac ar gais, yn amlinellu cynnydd ar gyflawni'r cynllun hwn a'r cynllun gweithredu.

25 Adolygu ac addasu'r cynllun

- 25.1** Byddwn yn adolygu'r cynllun hwn o fewn tair mlynedd iddo ddod i rym.
- 25.2** Hefyd, o bryd i'w gilydd, mae'n bosib y bydd angen i ni adolygu'r cynllun hwn, neu gynnig addasiadau i'r cynllun, yn sgil newidiadau i'n swyddogaethau neu i'r amgylchiadau yr ydym yn ymgymryd â'r swyddogaethau hynny o'u mewn, neu am unrhyw reswm arall.
- 25.3** Ni wneir unrhyw newidiadau i'r cynllun hwn heb gymeradwyaeth Comisiynydd y Gymraeg.

26 Cwynion ac awgrymiadau i wella

- 26.1** Ein nod yw darparu'r gwasanaeth gorau posib bob amser ond, weithiau, gall pethau fynd o'i le. Ystyrir cwynion yn ymwneud â'r cynllun hwn, neu awgrymiadau i wella, fel cyfle i wella'n gwasanaethau a dylid eu cyfeirio at yr uwch aelod o staff sy'n gyfrifol am y cynllun, yn y cyfeiriad a ganlyn:

Emma Stranack,

Pennaeth Busnes a Chyfathrebu
Defnyddwyr

Awdurdod Ymddygiad Ariannol

25 The North Colonnade
Canary Wharf
Llundain
E14 5HS

Neu drwy e-bost: cymraeg@fca.org.uk

